

Rhwydwaith Sentinel Cymru Wales Sentinel Network

Rhifyn/Edition 3
Mai/May 2023



Mewn Partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
In Partnership with
Welsh Government



Animal &
Plant Health
Agency
Asiantaeth
Iechyd Anifeiliaid
a Phlanhigion

Helô Rwydwaith!

Dyma drydydd rhifyn cylchlythyr Rhwydwaith Sentinel Cymru.

Nod y cylchlythyr hwn yw cefnogi'r 22 o safleoedd sentinel ledled Cymru sydd wedi cofrestru â Rhwydwaith Safleoedd Sentinel Cymru, ond cofiwch fod croeso ichi ei rannu ag eraill fyddai â diddordeb. Croesawn gyfraniadau at y cylchlythyrau nesaf, cysylltwch â Daniel.Wood001@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.

Archwiliadau Iechyd Planhigion – o safbwynt yr APHA



Pestalotiopsis ar
Sequoiadendron
sempervirens
(Cochwydden California).

Datblygwyd y Safleoedd Sentinel yng Nghymru yn dilyn cynnal prosiect treialu ar y cyd ag Uwch-arolygydd Iechyd Planhigion a Hadau de Cymru a Llywodraeth Cymru i fonitro safleoedd amgylcheddol sensitif. Datblygodd y prosiect hwn system rhybuddion cynnar ar gyfer materion sy'n dod i'r amlwg ym maes Iechyd Planhigion. Diffinnir 'Sentinel' fel Gwarchodwr sy'n gyfrifol am sefyll a bod ar ei wylidwriaeth. Dyna rydyn ni yn ei wneud, ond ein bod yn cerdded ac edrych!

Sefydlwyd y prosiect yn swyddogol yn 2018 pan ddewiswyd Safle Sentinel ar gyfer pob sir neu brif ardal yng Nghymru.

Mae'r safleoedd Sentinel yn uno timau Iechyd Planhigion y de a'r gogledd a hynny er mwyn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am frigiadau o achosion o blâu a chlefydau. Mae archwiliadau'r holl safleoedd yng Nghymru yn cael eu cynnal gan oddeutu 6 i 7 o Arolygwyr Iechyd Planhigion a Hadau.

Ymwelir â phob safle Sentinel ddwywaith y flwyddyn, y tro cyntaf yn nhymor y gwanwyn o gwmpas mis Ebrill/Mai a'r ail dro wrth i dymor yr hydref agosáu ac yn ddelfrydol cyn i'r dail ddechrau cwmpo ym mis Medi neu fis Hydref.

Mae pob safle Sentinel yn unigryw ac felly mae'n rhaid eu harchwilio mewn modd priodol ar gyfer y planhigion a'r cynefinoedd y maen nhw'n eu darparu ar eu cyfer.

Ers 2018, mae llwybr wedi'i ddatblygu o amgylch pob safle sy'n galluogi'r Arolygydd sy'n ymweld i fonitro yr un planhigion ddwywaith y flwyddyn fel bod modd cofnodi unrhyw newid. Gall y planhigion a ddewisir i gael eu monitro fod yn allweddol i'r safle hwnnw megis Cochwydden, Derwen neu rywogaethau eraill o blanhigion sy'n wynebu risg neilltuol o [bla neu glefyd](#) newydd sy'n bygwth dod i mewn i Gymru.



Derwen mes coesynnog â gwywiad heb reswm hysbys.

Nid yw hyn yn golygu nad oes sylw yn cael ei roi i bopeth arall. Mae gan arolygwyr eu llygaid o hyd ar blanhigion neu goed eraill y gellir eu gweld yn ystod yr ymweliadau archwilio. Os daw rhywbeth sy'n achos pryder i'r amlwg, anfonir samplau o bryfed neu rannau o blanhigion i [Labordy Gwyddoniaeth FERA](#) er mwyn eu hadnabod a chanfod diagnosis.

Mae'r lluniau yn y cylchlythyr hwn yn dangos rhai enghreifftiau o'r hyn y mae arolygwyr iechyd planhigion wedi'u canfod yn ystod eu hymweliadau â safleoedd eleni.



Sirococcus tsugae ar Gedrwydden yr Atlas.

Mae'r tîm archwilio yn cofnodi pob ymweliad drwy dynnu lluniau a gwneud nodiadau gan ddefnyddio'r ap Field ar ffonau symudol. Mae hyn yn golygu bod modd edrych yn ôl yn hawdd ar yr un planhigion dros gyfnod o amser. Mae unrhyw samplau a anfonir i'r labordy hefyd yn cael eu cofnodi ar yr ap hwn ac ar wefan Iechyd Planhigion, eDomero.

Yn benodol, mae'r tîm hefyd yn monitro effeithiau amgylcheddol [Clwyf Marwol Sydyn y Derw \(Phytophthora ramorum\)](#) ar rywogaethau a allai gael yr haint megis y Llarwydden a Rhodododendron. Bellach rydyn ni'n chwilio am y [Phytophthora pluvialis](#) a gafodd ei ganfod yn ddiweddar ac a nodwyd yn y lle cyntaf yng Nghernyw ym mis Medi 2021. Gwyddwn fod y clwyf hwn yn heintio Ffynidwydden Douglas a Hemlog y Gorllewin.

Caiff pob ymweliad amgylcheddol eu cynnal gan sicrhau bod mesurau bioddiogelwch yn cael eu gweithredu'n llawn gan yr arolygwyr. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys sicrhau bod gennym esgidiau ac offer samplo glân sydd wedi'u diheintio cyn inni fwrw ati â'r gwaith. Rydym hefyd yn cymryd gofal i lanhau unrhyw offer torri a ddefnyddir rhwng cymryd samplau er mwyn sicrhau nad yw heintiau yn cael eu lledaenu. Rydym hefyd yn glanhau ac yn



Mae'r borderi planhigion mewn rhai safleoedd fel yr un yma yng Nghastell Powis hefyd yn sicrhau lle i archwilio planhigion eraill sydd mewn perygl, er enghraifft, yn sgil bygythiad *Xylella fastidiosa* sydd wedi dod i'r amlwg yn Ewrop. Mae gan y clefyd hwn ystod letyol enfawr a byddai'n ddinistriol i ddiwydiant garddwriaethol y DU a garddwyr brwd ym mhobman. Mae newid hinsawdd yn cynyddu'r risg y bydd y clefyd Môr y Canoldir hwn a phlâu eraill yn cael eu sefydlu yn y DU. Am ragor o wybodaeth, ewch i:

<https://www.rhs.org.uk/disease/xylella-fastidiosa>.

diheintio ein hesgidiau ar ddiwedd ymweliadau. Y rheswm am hyn yw hyd yn oed os na ddaeth heintiau i'r amlwg, gellid cludo pathogenau sy'n cael eu cario mewn pridd, yn anfwriadol, o safle i safle. Mae rhagor o gyngor ar gael yma:

<https://www.gov.uk/guidance/prevent-the-introduction-and-spread-of-tree-pests-and-diseases#tree-alert>

Fel tîm, mae'r arolygwyr iechyd planhigion yn dod at ei gilydd i drafod yr hyn rydym wedi'i weld mewn gwahanol safleoedd ac i gymharu diagnosis o'r samplau. Rydym hefyd yn gweithio tuag at feithrin cysylltiadau gydag arbenigwyr eraill sy'n ymwneud â choed a phlanhigion yn amgylchedd Cymru megis tîm Cyfoeth Naturiol Cymru a Forest Research. Yn ddiweddar, mae trapiau monitro wedi'u gosod mewn safleoedd Sentinel ledled Cymru a hynny yn sgil cydweithio â Rhwydwaith Gwyliaidwriaeth Iechyd Planhigion Cymru (rhannwyd gwybodaeth am y rhwydwaith hwn yng nghylchlythyr mis Hydref 2022) a hynny er mwyn chwilio am gyflwyniadau posibl o blâu dieisiau. Os cawn hyd i unrhyw beth anarferol yn ystod yr archwiliadau hyn, rydym yn rhoi gwybod i Forest Research drwy gyfrwng [gwefan Tree Alert](#).

Diolch yn fawr i holl aelodau timau Cymru am eu cyfraniad i Brosiect Safleoedd Sentinel Cymru. Mae Ann Payne, Gareth Davies, Kevin Izzard a Molly Hammond yn nhîm y de a Mike Bambrick a Lauren Waldron yn y gogledd. Diolch hefyd wrth gwrs i'r holl arddwyr a'r wardeiniaid parciau ym mhob safle sydd bob amser yn awyddus i'n helpu a siarad â ni am y planhigion a'r coed maen nhw'n eu gweld bob dydd!

Gan Carolyn Williamson, Arolygwr yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA).

Prosiectau/digwyddiadau eraill

Wythnos Iechyd Planhigion

Cynhelir wythnos Iechyd Planhigion rhwng 8 a 12 Mai 2023. Cynhelir yr ail [Ddiwrnod Rhyngwladol Iechyd Planhigion](#) ar 12 Mai a fydd yn canolbwyntio ar atal lledaeniad plâu a chlefydau planhigion, gweithgareddau parhaus o ran iechyd planhigion, ymchwil, a phwysigrwydd iechyd planhigion yn fyd-eang. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ynghylch agweddau'r cyhoedd tuag at iechyd planhigion. Gellir dod o hyd i'r adroddiad [yma](#). Mae trydarau wedi'u cyhoeddi sy'n tynnu sylw at rwydwaith Safleoedd Sentinel ac at ein [hanimeiddiad](#) a grëwyd yn ddiweddar.

Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion

Cyhoeddwyd [Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain Fawr 2023-2028](#) ym mis Ionawr. Mae'n nodi gweledigaeth pum mlynedd o hyd ar gyfer iechyd planhigion sy'n cynnwys cynllun gweithredu i sicrhau bioddiogelwch cenedlaethol, diogelu rhywogaethau brodorol ac annog twf economaidd. Mae'n gosod y DU yn arweinydd byd-eang ym maes bioddiogelwch planhigion gan nodi gweledigaeth i greu cadwyn blanhigion bioddiogel a threfn bioddiogelwch newydd a fydd yn diogelu diogeledd bwyd a helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd. Daw hyn oll yn dilyn ffigurau sydd wedi'u diweddarau sy'n dangos bod planhigion yn rhoi gwerth blynyddol o £15.7 biliwn i'r Deyrnas Unedig.



Bwrdd dehongli ym Modelwyddan y cyfeiriwyd ato yn Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain Fawr 2023-2028.

Mae'r Strategaeth yn amlinellu ymrwymïadau i gyflawni gweledigaeth newydd ar gyfer bioddiogelwch planhigion yng Nghymru a ledled Prydain Fawr. Mae gan y Strategaeth 4 canlyniad allweddol:

1. System bioddiogelwch o'r radd flaenaf
2. Cymdeithas sy'n gwerthfawrogi planhigion iach
3. Cadwyn gyflenwi planhigion bioddiogel
4. Gallu technegol gwell

Cyhoeddwyd y Strategaeth ar 9 Ionawr 2023 gan DEFRA, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Comisiwn Coedwigaeth. Cyhoeddwyd trydarau cysylltiedig hefyd a neges fidio gan Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd o Lywodraeth Cymru a ddywedodd:

“Mae'r Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion yn pwysleisio ein hymrwymiad i ddiogelu iechyd ein planhigion. Planhigion yw sylfaen ein hecosystemau ac maen nhw'n rhoi bywyd i'r gadwyn fwyd gyfan. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r hyn y byddwn ni yn ei wneud, gan weithio gydag eraill, i ddiogelu'r adnodd hanfodol hwn ymhellach.”

Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynol

Cyhoeddwyd [Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynol Prydain Fawr 2023-2030](#) ym mis Chwefror.

Mae'r Strategaeth sydd wedi'i diweddarau yn rhoi fframwaith lle gellir cydgysylltu camau gweithredu DEFRA, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, ein hasiantaethau a'n partneriaid allanol yn well, a hynny er mwyn sicrhau'r ymateb mwyaf effeithiol i atal rhywogaethau estron goresgynol, eu dileu a'u rheoli. Nod y strategaeth yw sicrhau prosesau gwell ar gyfer integreiddio â systemau bioddiogelwch sy'n ymwneud ag iechyd planhigion er enghraifft ac i roi gwell ystyriaeth i'r risgiau cynyddol a achosir gan rywogaethau estron goresgynol o ganlyniad i newid hinsawdd.



Enghraifft o Jac y Neidiwr.

Yn 2020, comisiynwyd adolygiad annibynnol o'r Strategaeth 2015 bresennol. Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021, wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth sydd wedi'i diweddarau. Nod trosfwaol y Strategaeth yw lleihau'r perygl o gyflwyno rhywogaethau estron goresgynol a'u bod yn sefydlu ym Mhrydain Fawr, yn ogystal â lleihau eu heffeithiau negyddol a hynny drwy ddull cadarn o weithio mewn partneriaeth. Mae'r Strategaeth hon yn parhau i ddilyn dull hierarchaidd Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol sy'n rhoi pwyslais ar atal, ac yna canfod yn gynnar ac ymateb yn gyflym, ac yn olaf, rheoli a rheolaethu hirdymor.

Wythnos Rhywogaethau Ymledol

Cynhelir Wythnos Rhywogaethau Ymledol rhwng 15 a 21 Mai 2023. Bob blwyddyn, mae sefydliadau ledled y DU, Iwerddon, Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw yn cydweithio er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch effeithiau rhywogaethau estron goresgynol. Am ragor o wybodaeth, ewch i [wefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr](#) neu flog [Rhwydwaith Ecologol Gadarn Cymru](#).

WYTHNOS RHYWOGAETHAU YMLEDOL

15 - 21 Mai 2023

Dysgwch ragor ar nonnativespecies.org/invasivespeciesweek



INVASIVE SPECIES WEEK

15 - 21 May 2023

Find out more at nonnativespecies.org/invasivespeciesweek

Adroddiad Ymchwil Action Oak



Enghraifft o goeden Dderwen. Llun gan Action Oak/Georgina Colman.

Mae Action Oak yn gweithio gyda phartneriaid i ariannu ymchwil a gwaith monitro hanfodol o ran bygythiadau sy'n wynebu coed Derw brodorol y DU. Mae'r rhain yn cynnwys gwyfyn ymdeithiwr y Derw, dirywiad aciwt mewn coed Derw, rhywogaethau sy'n ymosod ar wreiddiau ffwng melog a llwydni bloddiog. Mae [adroddiad blynyddol](#) wedi'i greu er mwyn rhoi diweddariad ar waith ymchwil a gefnogir gan Action Oak i lunio datrysiadau gwirioneddol a fydd yn sicrhau'r gwaith o ddiogelu ein coed Derw am genedlaethau i ddod.